**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 1 Tachwedd 2017.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd K P Hughes (Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Eric Wyn Jones, Shaun James Redmond, Dafydd Roberts a Robin Williams |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr Vaughan Hughes a Richard Owain Jones<br><br>Y Cynghorydd R A Dew – Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Aled M Jones (cais 7.1); Llinos M Huws (cais 7.2); Bryan Owen a Peter S Rogers (cais 7.3); Bob Parry OBE FRAgS (cais 7.5); Dafydd R Thomas (ceisiadau 8.1 a 12.1) |

1.00 o'r gloch - 4.25 o'r gloch yp

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref, 2017 fel rhai cywir.<br><br>**YN CODI O'R COFNODION**<br><br>**10.4 28C373G - Cais llawn ar gyfer codi 3 o dai tref tri llawr sydd yn cynnwys balconi ac 3 annedd sydd yn cynnwys balconi ynghyd â chreu mynedfa newydd ar dir yn Ffordd yr Orsaf, Rhosneigr.**<br><br>Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cytundeb Adran 106 i atal gweithrediad y caniatâd blaenorol a roddwyd ar y safle hwn bellach wedi'i ddelio ag ef drwy roddi amod ar y caniatâd. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2017 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | Cafwyd siaradwyr cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.1, 7.3, 7.4 and 7.5. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU A FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **7.1 20C310B/EIA/RE - Cais llawn ar gyfer adeiladu fferm arae solar 49.99MW ynghyd ag offer ac isadeiledd cysylltiedig a gwaith ategol ar dir ger Rhyd y Groes, Rhosgoch.**<br><br>**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddogion ar y sail nad ystyrir bod y cais yn ddigon eithriadol i ganiatáu gwyro oddi wrth bolisi ADN2 y Cynllun Datblygu.**<br><br>***(Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, cafodd y cais ei ohirio'n awtomatig tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd am gymeradwyo'r cais).***<br><br>**7.2 38C180F/VAR - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02) o ganiatâd cynllunio rhif 38C180D (cais amlinellol ar gyfer codi annedd a chreu mynedfa newydd) er mwyn caniatáu ymestyn yr amser i gyflwyno cais ar gyfer materion a gadwyd yn ôl yn Gilfach Glyd, Mynydd Mechell.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog ar sail bodolaeth y caniatâd cynllunio amlinellol presennol, cydnabyddiaeth bod y safle'n** |

| | |
|---|---|
| | **rhan o'r cyfrifiadau yn y Cynllun Datblygu a rhoi amod ar y caniatâd bod yn rhaid dechrau ar y gwaith o adeiladu'r annedd o fewn blwyddyn a bod y pethau hyn yn ystyriaethau digonol i wrthbwyso'r darpariaethau yn y Cynllun Datblygu.**<br><br>***(Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, cafodd y cais ei ohirio'n awtomatig tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd am gymeradwyo'r cais).***<br><br>**7.3 45C482 - Cais llawn i godi tŵr monopol 20m o uchder ynghyd ag offer cysylltiedig ar dir i'r gogledd ddwyrain o Cae Gors, Niwbwrch.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**7.4 46C569A/ENF - Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw trac preifat ar dir ger Moryn, Bae Trearddur.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig ynghyd ag amod ychwanegol mai dim ond yr ymgeisydd gaiff ddefnyddio'r llwybr preifat.**<br><br>**7.5 48C202A - Cais llawn ar gyfer codi annedd ar dir ger Penrallt Bach, Gwalchmai.**<br><br>**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | **8.1 19C842E/1/TR/ECON - Cais llawn ar gyfer codi gwesty newydd, isadeiledd cysylltiedig â gwaith gwrthglawdd ym Mharc Cybi, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r** |

| | |
|---|---|
| | **amodau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig ac yn amodol ar y trafodaethau pellach sydd i'w cynnal rhwng Swyddogion a'r Ymgeisydd mewn perthynas ag amodau ychwanegol i'w hatodi i'r cais.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **10.1 28C472E Cais llawn ar gyfer codi 2 annedd (un yn cynnwys balconi) ar dir ger Cartref, Ffordd yr Orsaf, Rhosneigr.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio'r cais yn dilyn derbyn gohebiaeth a fydd angen sylw'r Swyddogion Cynllunio.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 46C168D/DA - Cais am faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi annedd sydd yn cynnwys balconi ar dir yn Trearddur House, Bae Trearddur.**<br><br>**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol a hynny am y rhesymau a roddwyd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **13.1 12C49P/DEL - Cais dan Adran 73 i dynnu amod (09) (cyfyngu oedran y preswylydd) o ganiatâd cynllunio rhif 12C49M/VAR (codi 35 o fflatiau preswyl)** |

| | |
|---|---|
| | **yn Casita, Biwmares.**<br><br>**PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Darganfod yn y lle cyntaf a yw'r Cynghorydd Lewis Davies (cyn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac Aelod Lleol) yn fodlon cyfrannu at yr apêl ar ran y Cyngor ar y cyd â'r Cynghorydd John Griffiths.**<br><br>• **Y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cyfrannu at yr apêl ar y cyd â'r Cynghorydd John Griffiths os nad yw'r Cynghorydd Lewis Davies ar gael.**<br><br>13.2 **Gorchymyn Rheoli Traffig ar gyfer Niwbwrch a Phenlon.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig diwygiedig sydd yn yr adroddiad a mynd ati i gadarnhau'r Gorchymyn Rheoli Traffig a'r Cynllun yn seiliedig ar Adran 3.1 ac Atodiad 3 o'r Adroddiad.** |